# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Springholme Care Anglesey Ltd**

**Springholme**
**Traeth Coch**
**Pentraeth**
**LL75 8EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Springholme Care Anglesey Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | SPRINGHOLME CARE ANGLESEY LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mai 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb


Gwelsom welliannau mewn sawl maes ar draws y cartref. Mae'r darparwr yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ganlyniad i'r gwelliannau hyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r cartref yn well ac mae gwelliannau parhaus wedi'u gwneud i'r gwaith o reoli'r cartref o ddydd i ddydd, gan gynnwys mwy o archwiliadau a dadansoddiadau o ansawdd y gofal a ddarperir. Teimla'r bobl fod eu llais yn cael ei werthfawrogi a'u bod yn cael gofal da gan weithwyr gofal caredig a pharchus. Mae'r bobl a'u teuluoedd neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu hanghenion gofal. Mae'r cofnodion yn dangos bod gofal yn cael ei ddarparu yn unol â'r cyngor diweddaraf gan weithwyr proffesiynol a dewisiadau'r bobl o ran eu gofal a'u cymorth.

Mae'r darparwr yn buddsoddi yn yr adeilad a'r safle gyda rhaglen barhaus o waith i adnewyddu'r cyfleusterau. Gwelsom waith yn cael ei wneud ar y gerddi yn ystod ein hymweliad, ac roedd yr ystafelloedd a gwblhawyd yn ddiweddar wedi'u haddurno i safon dda iawn. Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd da o weithwyr gofal medrus sydd wedi'u fetio a'u hyfforddi. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn mwynhau gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr a'r darparwr. Maent yn hawdd mynd atynt ac yn groesawgar i ymwelwyr, ac maent yn ymfalchïo yn y gwaith y maent yn ei wneud dros y bobl.

## Llesiant

Mae gan y bobl lesiant da gan eu bod yn rheoli eu bywyd o ddydd i ddydd cymaint ag y gallant. Mae'r bobl a'u perthnasau neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae'r bobl yn gwneud dewisiadau rheolaidd am sut a ble i dreulio eu hamser bob dydd. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn darparu gofal a chymorth i'r bobl mewn ffordd gynnes, urddasol a charedig a dywedodd y bobl wrthym y gwrandewir ar eu dewisiadau unigol a chânt eu parchu. Mae'r darparwr yn ymgynghori â'r bobl ynglŷn â sut y caiff y gwasanaeth ei redeg ac mae'r rheolwyr yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt. Gwelsom hysbysfwrdd ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni’ yn y prif gyntedd yn dangos sut mae'r rheolwyr wedi ymateb i adborth gan y bobl a'u perthnasau.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae'r gweithwyr gofal yn cysylltu'n agos â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael cyngor a thriniaeth briodol ac amserol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal yn dilyn y cyngor diweddaraf ar gyfer unigolion gan weithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Yn ystod ein harolygiad, roedd gan y bobl glychau galw ar wahân ac roeddent yn cael eu hateb mewn modd amserol. Cynhelir gweithgareddau wedi'u cynllunio yn y cartref o leiaf dri diwrnod yr wythnos, gyda chymorth aelod dynodedig o'r staff gofal. Dywedodd un person wrthym fod y gweithwyr gofal: “*look after us well…and we have a chuckle together*”. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da yn y cartref; roedd yr adborth gan berthnasau yn gadarnhaol hefyd.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan weithwyr gofal hyfforddedig a gwybodus. Mae'r darparwr yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael yr hyfforddiant gofynnol ar ddiogelu ac yn deall pwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon. Mae'r staff yn hyderus i siarad â'r rheolwr os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y bobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau am eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu hamddiffyn rhag niwed am fod Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid priodol a/neu brosesau, polisïau a chanllawiau ar wneud penderfyniadau budd gorau yn cael eu dilyn. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod systemau priodol ar waith i roi gwybod am bryderon a bod y gweithwyr gofal yn eu defnyddio i roi gwybod i'r awdurdod lleol am bryderon. Mae'r rheolwr yn cymryd camau amserol i fynd i'r afael â materion ymarfer sy'n dod i'r amlwg a nodir drwy archwiliadau rheolaidd, sy'n lleihau'r risg o niwed ac esgeulustod i'r bobl. Mae asesiadau risg unigol a chartref cyfan ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel drwy leihau risgiau i'w hiechyd a'u llesiant.

## Gofal a Chymorth

Gwelsom welliannau i'r gwaith o gynnal asesiadau cyn derbyn, cynllunio gofal ac asesu risgiau mewn perthynas ag anghenion y bobl a'u dewisiadau o ran eu gofal a'u cymorth. Cafodd cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl a dderbyniwyd i'r cartref yn ddiweddar a phreswylwyr hirdymor y cartref eu hadolygu. Ceir tystiolaeth gref fod y bobl a'u perthnasau neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth adolygu eu cynlluniau personol. Mae'r cofnodion o adolygiadau yn drylwyr ac yn dangos bod iechyd corfforol ac emosiynol y bobl yn ogystal â'u llesiant yn cael eu hystyried. Caiff cofnodion manwl o gyfathrebiadau â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill eu cadw hefyd. Rhoddir gwybod i'r gweithwyr gofal ar lafar am newidiadau i ofal a gynlluniwyd y bobl wrth iddynt godi; caiff hyn ei atgyfnerthu gan y cyfarfodydd trosglwyddo ar ddechrau pob shifft. Mae'r rheolwr yn cynnal cyfarfodydd briffio bob prynhawn gyda'r tîm rheoli a'r uwch-weithwyr gofal, er mwyn cadw'n ymwybodol o faterion sy'n dod i'r amlwg a newidiadau i anghenion y bobl.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda gan weithwyr gofal caredig a sylwgar sydd â chydberthnasau da â nhw. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac a ffefrir ganddynt, yn unol â'u hanghenion cyfredol a'r cyngor diweddaraf gan weithwyr proffesiynol. Mae'r rheolwr yn monitro adolygiadau o gynlluniau personol ac asesiadau risg fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn sgwrsio â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r fwydlen a gynigir yn newid bob dydd ac yn cael ei harddangos ar fwrdd gwyn gerllaw'r ystafell fwyta, ac ar fwydlen ddarluniadol ar y byrddau bwyta er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu gwahanol. Roedd y bwyd a gafodd ei weini yn ystod yr arolygiad hwn yn edrych ac yn arogleuo'n flasus. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn ei hoffi.

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i fesurau sy'n sicrhau diogelwch a llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol i godi pryderon diogelu a sut i wneud hyn; mae manylion cyswllt yr awdurdod diogelu lleol wedi'u harddangos yn amlwg yn y fynedfa i ymwelwyr. Caiff themâu diogelu eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff, cyfarfodydd goruchwylio a sesiynau hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae systemau priodol ar waith i roi gwybod am bryderon diogelu sy'n gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac mae'r staff yn eu dilyn.

Mae'r arferion rheoli meddyginiaethau da yn y cartref yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaethau'n ddiogel. Mae'r cofnodion hyfforddiant a rhoi meddyginiaethau yn dangos hyn, felly hefyd y cofnodion o archwiliadau gan y rheolwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae'r arferion hylan da yn y cartref yn helpu'r bobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Caiff y cyfarpar a ddefnyddir i helpu'r bobl i symud o gwmpas y cartref ei lanhau'n drylwyr gan y gweithwyr gofal ar ôl pob defnydd. Mae staff domestig yn y

cartref bron bob dydd i'w gadw'n lân ac i olchi dillad. Gwelsom fod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff gofal ac ymwelwyr i leihau'r risg o ledaenu haint.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn gwaith i sicrhau bod yr adeilad ei hun, y cyfarpar yn y cartref, a'r tir o'i amgylch yn diwallu anghenion y bobl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adnewyddu'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd cymunedol yn y cartref. Mae'r ystafelloedd gorffenedig wedi'u haddurno i safon dda iawn ac yn cynnwys y dodrefn a'r cyfarpar sydd eu hangen ar y bobl. Mae'r cartref yn ddiogel gyda system mynediad drwy god allwedd i'r fynedfa flaen. Ceir mynediad addas i gadair olwyn i'r safle o rai ardaloedd cymunedol a'r llawr gwaelod is. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnwys patio gyda digon o seddau i'r bobl ymlacio yn yr ardd. Mae'r lolfeydd cymunedol mewnol yn olau ac yn agored ac yn cynnig lefelau gwahanol o gymdeithasu i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedodd un person wrthym ei fod yn mwynhau treulio amser yn gwylio'r olygfa'n dawel o ffenestr y lolfa, a gwelsom sawl un yn gwylio'r teledu gyda'i gilydd mewn lolfa arall. Mae'r ystafell fwyta yn cynnwys digon o seddau i'r mwyafrif o'r bobl yn yr ystafell fwyta eu prydau gyda'i gilydd os oes gwell ganddynt wneud hynny. Gwelsom gyflenwadau da o gyfarpar yn y cartref, y mae pob un ohonynt yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yno. Mae'r tîm rheoli yn tynnu sylw gweithwyr proffesiynol perthnasol at newidiadau posibl i anghenion y bobl am gyfarpar mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod yr asesiadau cywir yn cael eu cwblhau.

Mae gan y darparwr brosesau a pholisïau ar waith i gynnal iechyd a diogelwch y bobl yn y cartref. Caiff holl gyfarpar a gwasanaethau'r cartref eu harchwilio, eu monitro, eu hardystio, eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn briodol yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y staff perthnasol yn monitro iechyd a diogelwch yn y cartref yn rheolaidd ac mae'n cwblhau ei archwiliadau rheolaidd ei hun o hyn. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau bod materion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw mewn modd amserol.  Gwelsom fod asesiadau risg priodol o'r cartref cyfan ar waith hefyd; dylai'r rhain gael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â gofynion deddfwriaethol. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant swyddogion tân diweddaraf a bod profion larwm tân ac ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng manwl a dogfennau protocol Herbert ar waith i'r bobl fel rhan o fesurau i leihau risgiau iddynt. Ceir cofnodlyfr ymwelwyr i gofnodi pwy sy'n dod i mewn i'r adeilad ac yn gadael, sydd hefyd yn gweithredu fel cofrestr tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gwelsom welliannau i drefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd y darparwr sy'n cefnogi'r broses o ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da yn y cartref. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o bob agwedd ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Maent yn cymryd camau amserol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir ac yn cyflwyno eu canfyddiadau mewn adroddiad misol ar ansawdd y gofal i'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i adolygu detholiad o gofnodion a siarad â'r preswylwyr, eu perthnasau a'r gweithwyr gofal am eu profiadau yn y cartref. Mae'n casglu adborth gan y bobl a'u perthnasau drwy holiaduron ddwywaith y flwyddyn, a thrwy flwch awgrymiadau dienw wrth y fynedfa flaen. Mae'r rheolwr newydd wedi cynnal sgyrsiau misol â theuluoedd neu gynrychiolwyr y bobl er mwyn sicrhau bod dewisiadau ac anghenion y bobl yn cael eu diwallu ac fel rhan o adolygiadau unigol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn dadansoddi'r holl adborth a chanfyddiadau archwiliadau er mwyn nodi meysydd i'w gwella neu ddatblygu ar draws y cartref. Maent yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r darparwr ddwywaith y flwyddyn ac yn nodi'r camau gweithredu y maent eisoes wedi'u cymryd a pha gamau pellach y mae angen i'r darparwr eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.

Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd da o staff addas, hyfforddedig a chymwys. Mae cofnodion recriwtio'r staff yn dangos bod gweithdrefnau fetio priodol yn cael eu dilyn er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel wrth benodi aelodau newydd o staff. Mae pob aelod newydd o staff yn cwblhau rhaglen sefydlu sy'n briodol i'w rôl pan fydd yn dechrau, a chaiff hyn ei ddilyn gan hyfforddiant gloywi rheolaidd drwy gydol ei gyflogaeth yn y cartref. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus o ran eu sgiliau a'u gwybodaeth, yn enwedig yn dilyn hyfforddiant wyneb yn wyneb. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr newydd a'r tîm rheoli ehangach. Dywedodd y staff gofal wrthym “*The team pull together well and we communicate well so everything remains calm*”, ac mai'r peth gorau am weithio yn y cartref yw, “*we care for them [people living in the home] really well*”. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac arfarniadau blynyddol o'u hymarfer. Mae'r rheolwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am ddatblygiadau yn y gwasanaeth a diweddaru dealltwriaeth o bynciau hyfforddiant gwahanol drwy drafod arferion gorau yn y meysydd hynny. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal yn y cartref gofal yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf a'r cyfle i ailedrych ar ddysgu fel grŵp, er budd y bobl sy'n byw yn y cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw'r darparwr wedi dangos gwelliannau digonol eto o ran manylder a chysondeb y canllawiau a roddir i'r staff gofal yng nghynlluniau gofal y bobl, nac o ran cysondeb a chywirdeb y cofnodion sy'n nodi'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y cynlluniau gofal yn darparu gwybodaeth berthnasol i roi arweiniad cyson i'r staff o ran y ffordd orau o helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol, a bod y cynlluniau gofal yn cynnal, yn hyrwyddo ac yn diogelu llesiant a diogelwch y bobl. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 80 | Nid yw'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoliad. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod trefniadau parhaus a chynaliadwy ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth, gan gynnwys adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill. | Cyflawnwyd |
| 26 | Er bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud, nid yw'r darparwr wedi dangos yn ddigonol eto bod y prosesau a'r systemau newydd sy'n ymwneud â diogelu yn ymarferol effeithiol a'u bod yn cadw'r bobl yn ddiogel. Rhaid i'r staff a'r Unigolyn Cyfrifol ddangos bod ganddynt ddigon o wybodaeth a'u bod yn goruchwylio digwyddiadau yn y gwasanaeth yn ddigonol er mwyn diogelu'r bobl mewn modd cadarn. | Cyflawnwyd |
| 34 | Nid yw'r darparwr wedi dangos yn ddigonol eto y bydd y systemau newydd sydd ar waith yn cynnal y lefelau staffio cyfredol pe byddai cynnydd o ran lefelau dibyniaeth a deiliadaeth. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff gwelliannau i'r lefelau staffio eu cynnal wrth i'r lefelau deiliadaeth gynyddu a rhaid iddo ddangos bod digon o staff ar ddyletswydd bob amser i oruchwylio'r bobl a'u diogelu rhag niwed. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/09/2024